OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 No. 1478

# Gorchymyn Parth Arddangos Morlais 2021

## RHAN 3

## Caffael a Meddiannu Tir

*Meddiannu Tir Dros Dro*

**Defnyddio tir dros dro ar gyfer cynnal a chadw gweithfeydd**

**29.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod cynnal a chadw sy'n ymwneud ag unrhyw un o'r gweithfeydd awdurdodedig, caiff yr ymgymerwr—

(a) mynd ar unrhyw dir o fewn terfynau'r Gorchymyn ar y tir a'i feddiannu dros dro os yw'r cyfryw feddiannu yn rhesymol ofynnol at ddiben cynnal a chadw'r gwaith neu unrhyw weithfeydd ategol sy'n gysylltiedig ag ef; a

(b) adeiladu'r cyfryw weithfeydd dros dro (gan gynnwys darparu ffordd fynediad) ac adeiladau ar y tir ag sy'n rhesymol angenrheidiol at y diben hwnnw.

(2) Nid yw paragraff (1) yn awdurdodi'r ymgymerwr i feddiannu dros dro—

(a) unrhyw dŷ neu ardd sy'n eiddo i dŷ; neu

(b) unrhyw adeilad (heblaw am dŷ) os yw wedi'i feddiannu am y tro.

(3) Heb fod yn llai na 28 diwrnod cyn mynd ar dir a'i feddiannu dros dro o dan yr erthygl hon, rhaid i'r ymgymerwr gyflwyno hysbysiad o'r bwriad i fynd ar dir i berchenogion a meddianwyr y tir.

(4) Caiff yr ymgymerwr ond parhau i feddiannu tir o dan yr erthygl hon am gyhyd ag y bo'n rhesymol angenrheidiol i gynnal a chadw'r rhan o'r gweithfeydd awdurdodedig y meddiannwyd y tir ar eu cyfer.

(5) Cyn ildio meddiant o dir sydd wedi cael ei feddiannu dros dro o dan yr erthygl hon, rhaid i'r ymgymerwr waredu'r holl weithfeydd dros dro ac adfer y tir er boddhad rhesymol perchenogion y tir.

(6) Rhaid i'r ymgymerwr ddigolledu perchenogion a meddianwyr tir a feddiannwyd dros dro o dan yr erthygl hon am unrhyw golled neu ddifrod sy'n codi o arfer pwerau a roddir gan yr erthygl hon mewn perthynas â'r tir.

(7) Bydd unrhyw anghydfod ynglŷn â hawl person i gael ei ddigolledu o dan baragraff (6), neu ynglŷn â swm y cyfryw ddigollediad, yn cael ei benderfynu o dan Ran 1 o Ddeddf 1961.

(8) Heb ragfarnu erthygl 48 (dim adennill dwbl), nid oes dim yn yr erthygl hon yn effeithio ar unrhyw atebolrwydd i dalu digollediad o dan adran 10(2) o Ddeddf 1965 neu o dan unrhyw ddeddfiad arall mewn cysylltiad â cholled neu ddifrod sy'n codi o gwblhau unrhyw weithfeydd y mae digollediad yn daladwy amdani neu amdano o dan baragraff (6).

(9) Pan fo'r ymgymerwr yn meddiannu tir o dan yr erthygl hon, ni fydd yn ofynnol iddo gaffael y tir nac unrhyw fuddiant ynddo.

(10) Mae adran 13 o Ddeddf 1965 yn gymwys i ddefnyddio tir dros dro yn unol â'r erthygl hon i'r un graddau y mae'n gymwys i gaffael tir o dan y Gorchymyn hwn yn rhinwedd erthygl 24 (Cymhwyso Rhan 1 o Ddeddf Prynu Gorfodol 1965).

(11) Yn yr erthygl hon, ystyr "y cyfnod cynnal a chadw", mewn perthynas â gwaith awdurdodedig, yw'r cyfnod o 5 mlynedd sy'n dechrau ar y dyddiad y mae'r gwaith yn cael ei agor i'w ddefnyddio.